



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Plas y Garn

**Cartref Preswyl Plas y Garn
Park Gardens Penygarn
Pont-y-pŵl
NP4 8DB**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/06/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Plas y Garn

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Cymdeithas Tai Hafod Cyf
Lleodd cofrestredig	32
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	24 Mai 2023
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae llawer o welliannau wedi'u gwneud ers ein harolygiad blaenorol. Mae'r bobl yn Plas-Y-Garn yn hapus ac yn byw bywydau boddhaus. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu trin ag urddas a pharch. Mae'r cynlluniau personol sydd wedi'u gwella yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen ar y gweithwyr gofal i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da er mwyn helpu'r bobl i gyflawni llesiant. Mae rhaglen weithgareddau sydd wedi'i gwella yn cynnig digonedd o weithgareddau hamdden a dysgu i gadw'r bobl yn brysur. Mae gwelliannau amgylcheddol sylweddol wedi creu awyrgylch cartrefol a chroesawgar, sydd wedi gwella llesiant y bobl.

Mae rheolwr newydd wedi rhoi sefydlogrwydd i'r gwasanaeth. Mae wedi ymgorffori mwy o drefniadau llywodraethu cadarn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn fwy didrafferth ac effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adnabod y bobl yn dda ac yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd sydd wedi gwella yn helpu datblygiad parhaus. Mae cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant a sesiynau goruchwyllo wedi gwella, sy'n golygu bod y gweithwyr gofal yn cael y wybodaeth a'r cymorth cywir i gyflawni eu rolau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddigon cadarn ac mae angen eu gwella er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn iach bob amser.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth Hawdd ei ddarllen yn helpu'r bobl i ddeall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael i'w helpu i gyflawni llesiant. Caiff lleisiau'r bobl eu clywed a gwrandewir arnynt mewn cyfarfodydd preswylwyr. Caiff adborth o'r cyfarfodydd hyn ei ystyried, a chymerir camau i wella llesiant. Os na all y bobl siarad drostynt eu hunain, mae croeso i berthnasau sy'n eu hadnabod yn dda gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Gwahoddir perthnasau'r bobl i gyfarfodydd perthnasau er mwyn rhannu eu sylwadau ar y gwasanaeth a ddarperir. Caiff dewisiadau iaith y bobl eu nodi yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Caiff y bobl eu trin fel unigolion a chaiff eu hamgylchiadau eu hystyried. Cânt eu hannog i addurno eu hystafelloedd gwely yn unol â'u chwaeth bersonol. Mae'r bobl yn rhydd i bersonoli eu hystafelloedd gwely gyda phethau bach personol, addurnau, a lluniau. Mae rhai o'r bobl wedi dewis papur wal i gyd-fynd â'r hyn oedd ganddynt yn eu cartref blaenorol, er mwyn gwneud eu hardal fyw yn fwy cartrefol. Mae'r ardaloedd cymunedol cyn cynnwys gwaith celf y bobl fel eu bod yn teimlo'n gartrefol y tu allan i'w hystafelloedd gwely hefyd.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant. Mae newidiadau amgylcheddol sylweddol wedi gwella estheteg y gwasanaeth, sydd bellach yn gartrefol ac yn groesawgar. Mae feranda newydd ei hadnewyddu yn cynnig lle i'r bobl ymlacio yn yr awyr agored. Mae gwaith adnewyddu wedi dechrau i adeiladu tafarn lle bydd digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu cynnal. Disgwylir i hyn wella llesiant y bobl ymhellach. Mae cynllun a chyfleusterau golchi'r gwasanaeth yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cymhorthion addasu a chadeiriau olwyn i symud.

Mae'r gwasanaeth wedi gwella ei raglen weithgareddau. Caiff yr amserlenni gweithgareddau eu diweddarau'n wythnosol a'u harddangos yn yr ardaloedd cymunedol, fe bod y bobl yn gwybod beth sydd wedi'i drefnu. Mae'r gweithgareddau yn amrywiol ac mae digonedd ohonynt, ac maent yn cynnig rhywbeth i bawb ei fwynhau. Mae'r rhain yn cynnwys cantorion sy'n perfformio yn y gwasanaeth, bingo, a sesiynau celf. Cynigiodd y bobl adborth da am y rhaglen weithgareddau. Dywedodd un person wrthym *'There's always something going on, we are never bored.'* Caiff anghenion crefyddol a diwylliannol eu hystyried, ac mae croeso i'r bobl ymuno â'r gwasanaethau wythnosol yn yr eglwys fewnol.

Mae pobl yn ddiogel yn bennaf. Dilynir protocolau diogelu cadarn pan gaiff pryder diogelu ei nodi. Mae'r gweithwyr gofal wedi cael eu hyfforddi'n briodol i gefnogi'r bobl yn ddiogel; mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed. Mae gan bob gweithiwr gofal wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i gadarnhau ei fod yn addas i gyflawni ei rôl. Mae'r arferion recriwtio diogel wedi gwella, gwnaethom nodi rhai anghysondebau yn y dyddiadau cyflogaeth a ddarparwyd. Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddigon cadarn, ac mae hyn yn peri risg i lesiant emosiynol a chorfforol y bobl.

Gofal a Chymorth

Yn gyffredinol, darperir gofal a chymorth o ansawdd da i'r bobl i'w helpu i gyflawni llesiant. Mae'r cynlluniau personol sydd wedi'u gwella yn nodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i aros yn hapus ac yn iach mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu bod y cynlluniau personol wedi'u hysgrifennu o safbwynt y person ac yn ystyried ei anghenion a'i ddewisiadau unigol. Bydd system rheoli gofal electronig yn cael ei mabwysiadu yn ddiweddarach yn 2024. Disgwylir y bydd hyn yn gwella'r cynlluniau personol ymhellach ac yn eu symleiddio. Disgwylir i ddogfen gwerthuso cynlluniau gofal newydd gael ei chyflwyno er mwyn gwneud y broses o werthuso cynlluniau gofal yn fwy ystyrlon a chyson.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi systemau gwell ar waith i fonitro iechyd corfforol y bobl, fel monitro pwysau a chwympiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn cael cymorth i hybu eu llesiant emosiynol a meddyliol. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr allweddol yn helpu'r bobl i lunio nodau i weithio tuag atynt er mwyn gwella eu llesiant. Anogir risgiau cadarnhaol. Mae rhai canlyniadau yn gyffredinol ac nid ydynt yn canolbwyntio ar y person. Yn dilyn yr arolygiad, trafodwyd sut y gellir addasu canlyniadau i ganolbwyntio'n fwy ar y person. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod anghenion emosiynol unigol ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt, gan gynnwys pan fydd person yn teimlo'n isel. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu lleddfu pryderon y bobl yn gyflym drwy ddefnyddio dulliau cymorth sydd wedi'u teilwra at yr unigolyn, yn unol â'u cynllun personol. Mae'r defnydd da o gymorth cyffyrddol yn cynnig cysur i'r bobl.

Caiff y bobl eu trin â charedigrwydd, urddas, a pharch. Mae'r gweithwyr gofal yn cynnig cymorth prydol a rhagweithiol. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cynnig diodydd a byrbrydau i'r bobl yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â nhw mewn modd cadarnhaol ac ysgafn. Ymatebir yn gyflym ac yn sensitif i alwadau am gymorth. Siaradodd y gweithwyr gofal am y bobl â hoffter a chynhesrwydd gwirioneddol, ac roeddent yn ymddangos yn ymrwymedig i'w rolau. Rhoddodd y bobl adborth cadarnhaol am y gweithwyr gofal a'r gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un person fod y staff yn *'Brilliant'*, a dywedodd un arall *'It's wonderful here, such lovely staff. They do anything for us.'*

Caiff perthnasau'r bobl eu hannog i gymryd rhan yng ngofal eu hanwyliaid, a gallant ymweld â'r gwasanaeth mor aml ag y mynnant. Rhoddodd perthnasau'r bobl adborth cadarnhaol am y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un perthynas a oedd yn ymweld â'r cartref ar adeg ein hymweliad, *'It's wonderful here, we love it.'* Dywedodd un arall, *'We have no complaints. The care here is second to none. The staff go above and beyond.'*

Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddigon cadarn i sicrhau bod y bobl bob amser mor iach â phosibl. Ni chaiff gwiriadau o gyflenwadau meddyginiaeth eu cwblhau'n gyson sy'n awgrymu efallai nad yw'r bobl bob amser yn cael meddyginiaeth yn unol â'u

presgripsiwn. Ni chaiff polisi meddyginiaethau mewnol darparwr y gwasanaeth ei ddilyn pan fydd gwall yn ymwneud â meddyginiaeth. Nodwn fod darparwr y gwasanaeth wedi cymryd camau gwella ar unwaith yn dilyn yr arolygiad i liniaru unrhyw risgiau pellach i'r bobl. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth barhau i gymryd camau unioni.

Yr Amgylchedd

Mae rheolwr newydd wedi canolbwyntio'n llwyr ar y maes hwn ac wedi rhoi camau ar waith i'w wella. Diben hyn yw sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd cadarnhaol, sy'n cynnwys cyfleusterau a chyfarpar addas i'w helpu i gyflawni e canlyniadau a'u llesiant.

Mae cynllun a maint y safle yn addas ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir ac yn cyd-fynd â'r hyn a ddisgrifir yn y Datganiad o Ddiben. Gwnaed gwelliannau sylweddol er mwyn gwneud y gwasanaeth yn fwy cartrefol a chroesawgar. Mae'r gwasanaeth wedi'i rannu dros ddau lawr, y gall y bobl fynd iddynt drwy ddefnyddio'r lifft. Mae'r ardaloedd cymunedol yn fawr ac yn agored, ac yn cynnig mannau ymlaciol i'r bobl gymdeithasu. Mae'r llenni a'r deunyddiau yn briodol ac yn gyfforddus, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt mewn cyflwr da. Mae cyfarpar a chymhorthion addasu perthnasol yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth y bobl am gyn hired â phosibl. Mae'r ystafell weithgareddau newydd yn cynnig lle i unigolion neu grwpiau bach gymryd rhan mewn gweithgareddau, fel gwaith celf neu gemau bwrdd. Mae gwaith adnewyddu wedi dechrau ar ardal gymunedol arall, sy'n cynnwys tafarn lle bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal. Mae feranda sydd newydd ei hadnewyddu wedi cael ei haddurno â glaswellt ffug a dodrefn awyr agored, gan gynnig ardal gyfforddus yn yr awyr agored i'r bobl fwynhau golygfeydd yr ardd. Dywedodd un person wrthym *'[the manager] has made so many people happy with the new veranda. It really adds to the home.'* Mae rhagor o waith yn yr ardd wedi cael ei gynllunio yn ddiweddarach yn 2024 er mwyn gwella'r ardal awyr agored ymhellach. Mae gwaith adnewyddu ychwanegol wedi cael ei wneud i wella ardaloedd y staff. Mae ystafell staff newydd yn cynnig ardal dawel i'r gweithwyr gofal ymlacio yn ystod egwyliau.

Mae'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn cadw'r bobl yn ddiogel. Gofynnir i ymwelwyr ddangos manylion adnabod a llofnodi wrth gyrraedd. Caiff yr ardaloedd sy'n cynnwys sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu cadw ar glo. Gall y gweithwyr gofal fynd i ardaloedd gwahanol o'r gwasanaeth drwy ddefnyddio ffb; diben hyn yw sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac na allant fynd i ardaloedd a all fod yn beryglus, er enghraifft y grisiau. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Mae'r gweithwyr domestig yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau da er mwyn lleihau'r risg o haint.

Mae'r rheolwr yn goruchwyllo'r amgylchedd yn dda ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'r tystysgrifau iechyd a diogelwch yn dangos bod yr arolygiadau allanol gofynnol wedi cael eu cwblhau. Mae'r camau unioni a nodwyd yn ystod yr arolygiadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith yn brydlon. Mae technegydd cynnal a chadw mewnol yn cwblhau gwiriadau ac archwiliadau iechyd a diogelwch yn gyson ac yn unol â'r amserlen cynnal a chadw a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r bobl. Mae'r sgôr hylendid bwyd sydd wedi gwella i bum seren yn dangos ymrwymiad i welliannau amgylcheddol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Ddefnyddiwr y Gwasanaeth yn rhoi trosolwg cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau cadarn yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau cyfredol, ac yn ategu gwasanaeth sydd, at ei gilydd, yn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau a'u llesiant personol.

Mae trefniadau llywodraethu da yn sail i wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda. Mae goruchwyliaeth yr Unigolyn Cyfrifol wedi gwella. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adnabod y bobl yn dda ac yn cyflawni ei ddyletswyddau rheoliadol yn unol â'r rheoliadau. Mae'r adroddiadau ar ymweliadau rheoliad sydd wedi gwella yn dangos goruchwyliaeth dda i adolygu cynnydd a llywio datblygiad y gwasanaeth. Mae rheolwr newydd wedi rhoi sefydlogrwydd i'r gwasanaeth ac wedi rhoi gwelliannau sylweddol ar waith. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd a monitro wedi gwella, sy'n golygu bod y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd yn cael ei goruchwylion well. Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl yn dda ac yn cynnig gofal urddasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhoddodd y bobl a'r gweithwyr gofal adborth cadarnhaol am y rheolwr. Dywedodd un gweithiwr gofal ei fod yn 'A *Godsend and brilliant*', a chafodd ei ganmol am yr holl waith y mae wedi ei wneud cyfnod byr o amser.

Caiff y rhan fwyaf o'r bobl eu cefnogi gan staff gofal addas sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymwyseddau a'r sgiliau angenrheidiol. Gall y staff gael gafael ar wybodaeth am yr hyn a ddisgwylir ganddynt, gan gynnwys eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau fel gweithwyr gofal. Mae cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant staff wedi gwella'n sylweddol; mae bron pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant craidd ac arbenigol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rhaglen hyfforddiant o ansawdd da ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu rolau'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ond gwnaethom nodi rhai anghysondebau o ran dyddiadau cyflogaeth flaenorol a ddarparwyd ar y cam ymgeisio. Mae gwiriadau recriwtio diogel yn bwysig er mwyn sicrhau bod darpar weithwyr gofal yn meddu ar y profiad cywir i gyflawni dyletswyddau eu rolau. Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai camau'n cael eu cymryd ar unwaith i atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol.

Gall y gweithwyr gofal roi adborth am y gwasanaeth yn ystod cyfarfodydd staff rheolaidd. Gwrandewir ar adborth a chaiff ei ystyried. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Mae ansawdd a chydymffurfiaeth sesiynau goruchwylion'r staff wedi gwella. Mae'r sesiynau goruchwylion yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod anghenion personol ac anghenion datblygu mewn amgylchedd diogel. Rhoddodd y gweithwyr gofal adborth cadarnhaol am y gwasanaeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym '*[Plas Y Garn] is a wonderful place to work.*' Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw nad oes ganddynt unrhyw bryderon am y gwasanaeth a ddarperir a'u bod yn teimlo bod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
58	Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddigon cadarn, sy'n golygu bod y bobl yn wynebu risg o niwed.	Newydd
66	Mae'r sefydliad wedi nodi nifer o ddiffygion o ran y gofal a'r cymorth a ddarperir/sesiynau goruchwylio'r staff, ond mae'r systemau y maent wedi'u rhoi ar waith i'w hunioni yn aneffeithiol.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 23/07/2024